UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
www.ucac.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru**

**Ffurflen ymateb**

Eich enw:  Iona Davies

Sefydliad (os yn berthnasol): UCAC

ebost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 27 Mawrth 2026 i:

Cyfarwyddiaeth Addysg Uwch

Strategaeth a Chyllid

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu wedi'i gwblhau'n electronig a'i anfon at: e-bost: AddysgDrydyddol.Ymgyngoriadau@llyw.cymru

# Anhysbysrwydd

Gellir cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn. | |

Gwybodaeth ychwanegol

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: data.protectionofficer@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: ico.org.uk

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (er enghraifft sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Cyfranogiad

1. Pa dystiolaeth bellach sydd ar gael ynghylch cefndiroedd a llwybrau dysgwyr ifanc sy'n mynd i'r coleg ar gymwysterau lefel is? Ai dyma'r llwybrau cywir ar gyfer y dysgwyr hyn?

| |
|---|
| Mae dewisiadau pobl ifanc pan nad yw addysg yn orfodol yn seiliedig ar bob math o ffactorau. I rai mae gadael ysgol a mynd i goleg yn ddewis priodol. Mae'n anodd gwneud sylw cyffredinol ynghylch priodoldeb llwybrau dysgwyr. Mae pob unigolyn yn wahanol. |

2. Pa wybodaeth arall sydd gennym am achosion uniongyrchol y cynnydd diweddar yn nifer y cofrestriadau coleg? A ydym yn disgwyl i'r cynnydd barhau?

Mae problemau a heriau cludiant yn gallu effeithio'n fawr ar ddewisiadau pobl ifanc. **Nid** yw hi'n hawdd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig i gael cludiant i leoliadau addysg bellach. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae angen cymharu hygyrchedd ysgolion a cholegau. Mae enghreifftiau (e.e. Wrecsam), lle mae'r coleg wedi ei leoli yn agos at yr orsaf fysiau, tra bo'r ysgol cyfrwng Cymraeg tua dwy filltir o'r orsaf fysiau. Yn aml iawn, nid yw ysgolion yng nghanol trefi, ond ar y cyrion.

Rhaid cofio hefyd fod amrywiaeth o Awdurdod Addysg i Awdurdod Addysg o ran ariannu cludiant ôl-16. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig cludiant am ddim i ddisgyblion 16+, tra bo awdurdodau lleol eraill yn codi tâl ar y disgyblion hyn.

Fel rheol, mae mwy o gyllid ac adnoddau gan golegau i farchnata a denu dysgwyr nag sydd gan ysgolion, ac mae hyn ynghyd ag awydd/ y demtasiwn i rai disgyblion 16 oed i gael profiadau newydd mewn coleg yn gallu golygu bod disgyblion yn gadael ysgolion, er mwyn astudio mewn coleg. Weithiau mae cynnydd niferoedd yn digwydd mewn colegau, gan fod pobl yn dilyn 'ffasiwn' ac yn dilyn eu cyfoedion, gan fynd i'r dewis mwyaf 'poblogaidd'. Mae eraill yn cael eu hunain mewn 'coleg', am nad oes lle arall yn cynnig cyrsiau addas iddynt. Erbyn hyn, efallai nad oes swyddi ar gael ar gyfer pobl 16 oed heb unrhyw gymwysterau. Mae'r tuedd – parhau ai peidio – yn mynd i ddibynnu i raddau ar y farchnad swyddi, opsiynau mewn ysgolion (a fydd mwy o gyrsiau galwedigaethol mewn ysgolion), hygyrchedd cyrsiau. Weithiau mae pobl ifanc yn dewis cwrs coleg am fod y coleg yn nes at eu cartref na'r ysgol.

Mae'n anodd iawn rhagweld a yw'r cynnydd yn mynd i barhau ai peidio. Mae modd astudio demograffeg, er mwyn gweld faint o bobl ifanc o oedran penodol fydd yna ymhen 10 mlynedd/15 mlynedd ayb.

3. Pa resymau a allai fod yn gyfrifol am y ffaith bod lefelau uwch o fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr hŷn yn mynd i addysg uwch yng Nghymru? A all/a ddylai Llywodraeth Cymru geisio cynyddu nifer y bobl ifanc 18 oed sy’n mynd i addysg uwch yn llawn-amser, ac ystyried y cyfraddau cyfranogiad uwch gan fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr hŷn?

| |
|---|
| Gall hyn fod oherwydd fod pobl ifanc yn awyddus i ennill cyflog, yn methu fforddio talu am gyrsiau coleg, yn awyddus i beidio â chael dyled. Byddai rhai o’r rhain yn elwa o fynd i goleg yn 18 oed, tra bo eraill yn elwa o weithio ac astudio yr un pryd. Mae’r sawl sy’n gweithio ac yn astudio (maes sy’n berthnasol i’w gyrfa) yn gallu elwa o brofiad ymarferol yn y maes y maent yn ei astudio.<br><br>Mae’n rhaid holi’r cwestiwn a oes gormod o bwyslais yn cael ei roi ar fynd i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr? |

4. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei huchelgais i ddwy ran o dair o bobl ifanc gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant lefel 4+ erbyn eu bod yn 25 oed, sy’n gynnydd o’i gymharu â'r gyfradd cyfranogiad bresennol o 50%. Cyflwynwyd is-darged hefyd ar gyfer o leiaf 10% o bobl ifanc yn dilyn addysg dechnegol uwch neu brentisiaethau erbyn iddynt gyrraedd 25 oed erbyn 2040. A ddylai Cymru osod targed tebyg i darged Llywodraeth y DU ar gyfer cyfranogiad lefel 4+ a/neu brentisiaethau?

| |
|---|
| Mae’n bwysig bod pawb yn cael y cyfle i dderbyn addysg, hyfforddiant neu brentisiaeth briodol. Ar y naill law mae perygl mewn gosod targed – gall arwain at ddiwylliant ‘ticio blychau’, ond ar y llaw arall, mae’n bwysig bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc.<br><br>Ymddengys fod angen canolbwyntio ar ddatblygu cyrsiau Lefel 3 yng Nghymru, gan ddatblygu gallu pobl ifanc ar y lefel hon.<br><br>A oes angen sicrhau bod pob unigolion yn derbyn hyfforddiant neu ryw ffurf ar addysg tan eu bod yn 18 oed? |

5. Pa oblygiadau sydd gan y tueddiadau a amlinellwyd mewn cyfranogiad ôl-16 ac mewn mannau eraill yn y papur hwn i addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?

Mae'n bwysig bod cyfleoedd i'r sawl sydd wedi derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i allu parhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag fo'r astudiaethau hynny - hyfforddiant, prentisiaeth ayb. Mae'n bwysig hefyd fod cludiant am ddim i leoliadau sy'n darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a rhaid sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn gyfleoedd o'r safon uchaf.

Mae'n bwysig osgoi sefyllfaoedd lle cynigir darpariaeth 'ddwyieithog' sydd mewn byr o dro yn llithro i fod yn ddarpariaeth Saesneg oherwydd niferoedd, neu oherwydd diffyg awydd darparwyr i weithio i ddarparu adnoddau mewn dwy iaith. Mae'n bwysig os yw cwrs yn cael ei hysbysebu a'i ariannu fel cwrs 'dwyieithog', yna fod y cwrs hwnnw yn gwrs gwirioneddol ddwyieithog, sy'n rhoi lle pwysig i'r Gymraeg.

Y dyhead yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n rhaid buddsoddi yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae cynnal Chweched Dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion barhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gydag athrawon sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu rhoi'r anogaeth a'r heriau priodol i'w dysgwyr. Rhaid cofio hefyd fod dysgwyr Chweched Dosbarth yn cynnig cyfraniad pwysig i ysgolion – mae'r disgyblion iau yn elwa o'r gefnogaeth a'r cymorth y maent yn eu rhoi iddynt ac mae'r disgyblion hŷn yn elwa o'r profiad o gynorthwyo disgyblion iau.

## Demograffeg a dysgu gydol oes

1. Sut mae darparwyr addysg drydyddol yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer y newid demograffig sydd ar ddod yn eu hardaloedd? Pa heriau y bydd hyn yn eu creu?

Un o'r heriau sy'n wynebu darparwyr addysg drydyddol yw bod addysg ôl-16 yn cwmpasu ystod oedran eang iawn. O'r herwydd mae'r gofynion hefyd yn amrywiol ac yn wahanol iawn.

2. Beth yw'r rhwystrau cyllido a’r rhwystrau deddfwriaethol a gweinyddol i gynyddu'r cyflenwad o gyfleoedd dysgu gydol oes hyblyg a hygyrch, a'r galw amdanynt, ar lefelau is (is na lefel 3) ac ar lefelau uwch (uwch na lefel 4)?

| |
|---|
| Teimlir bod diffyg buddsoddi mewn addysg ôl-16. Mae angen cynllunio a pharatoi manwl yn hyn o beth. |

3. Pa newidiadau y mae angen eu gwneud i sicrhau cyfleoedd priodol i oedolion wella eu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ochr yn ochr â sgiliau galwedigaethol a dysgu arall?

| |
|---|
| Mae’n hollbwysig bod ysgolion cynradd yn canolbwyntio’n llwyr ar sgiliau sylfaenol dysgwyr. Mae hybu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn allweddol ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.<br><br>Mae angen sicrhau bod cyrsiau dwys ar gyfer oedolion sydd â sgiliau sylfaenol diffygiol. Byddai dysgu sgiliau sylfaenol ochr yn ochr â chyfleoedd i wella sgiliau galwedigaethol a dysgu arall yn pwysleisio perthnasedd pob un o’r sgiliau ac yn sicrhau bod pobl yn ymroi yn llawn i gaffael a gwella eu sgiliau. |

4. Pa wersi y gellir eu dysgu o'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol, a sut y gellir gwerthuso llwyddiannau'r polisi hwnnw ac ehangu arnynt?

| |
|---|
| Nid oes gennym sylwadau ar y pwynt hwn. |

5. Pa addysg bellach a hyfforddiant i oedolion 19 oed a hŷn y dylid eu blaenoriaethu i'w cynnwys mewn rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud o dan adran 94 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil?

Ymddengys fod diffyg crefftwyr ym mhob ardal o Gymru. Mae'n bwysig, felly, fod y sgiliau hyn yn cael eu datblygu a bod hyfforddiant priodol i'r perwyl hwnnw. Un maes pwysig y mae angen rhoi sylw iddo a datblygu cyrsiau ôl-16 ynddo yw economeg. Mae angen economegwyr ac economegwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng Gymraeg yn arbennig. Byddem yn croesawu cyrsiau economeg ar bob lefel.

## Cystadleuaeth a chydweithio

1. Beth yw'r rhwystrau presennol i fwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol? Beth sy'n galluogi cydweithio effeithiol ar hyn o bryd?

Mae darparwyr yn aml yn cystadlu â'i gilydd am ddysgwyr. Os yw cyllid yn seiliedig ar niferoedd, yna mae'r elfen gystadleuol yn mynd i fod yn hollbwysig i ddarparwyr. Mewn rhai achosion mae egwyddorion craidd yn mynd i fod yn rhwystr i ddarparwyr gydweithio e.e pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

Er mwyn cydweithio'n llwyddiannus, mae angen sicrhau gwerthoedd cytûn a sicrwydd nad yw'r naill ddarparwr yn mynd i golli allan oherwydd eu cefnogaeth i sefydliad arall. Mae'n bwysig bod arweinwyr a staff yr amrywiol ddarparwyr yn siarad â'i gilydd ac yn dod i gytundeb â'i gilydd ar faterion craidd.

Er mwyn annog mwy o gydweithio, mae angen sicrhau bod cymwysterau staff dysgu yn cael eu cydnabod ar draws y sectorau. Nid yw pob addysgwr mewn colegau Addysg Bellach yn meddu ar gymwysterau sy'n cael eu cydnabod mewn ysgolion.

2. A oes rhagor o enghreifftiau o ysgolion a cholegau'n cydweithio i gynnal cwricwlwm eang a hygyrch mewn addysg ôl-16 ac i wella'r pontio rhwng addysg cyn ac ôl-16? A oes rhagor o enghreifftiau o brifysgolion yn cydweithio i gyflwyno darpariaeth gradd? A ellir datblygu hyn ymhellach i ddiogelu meysydd pwnc sydd mewn perygl?

| |
|---|
| Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn enghraifft o sefydliad sy'n hybu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn amrywiol sefydliadau.<br><br>Ymddengys fod y cyswllt rhwng colegau addysg bellach a diwydiant wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae angen cynyddu'r cyswllt hwn. |

3. Beth yw manteision ac anfanteision y farchnad heb ei chapio ar gyfer israddedigion cartref, i fyfyrwyr ac i sefydliadau? Sut mae'r sector addysg uwch yn disgwyl i'r farchnad ddatblygu yn ystod y degawd nesaf, yn enwedig pan fydd nifer y bobl ifanc 18 oed yn dechrau gostwng?

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth yng Nghymru wneud mwy i annog pobl i aros yng Nghymru, gan sicrhau bod ansawdd cyrsiau yng Nghymru yn arbennig o uchel. Tybed a fyddai'n syniad cynnig nifer o lefydd wedi'u hariannu'n llawn ym mhob pwnc ym mhob sefydliad. |

4. Ymhle yng Nghymru y mae yna risg o 'fannau oer o ran addysg uwch'? A oes yna feysydd pwnc penodol sydd dan fygythiad oherwydd cystadleuaeth yn y farchnad a'r newid mewn dewisiadau myfyrwyr?

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn anffodus, bu'n rhaid rhoi'r gorau i ddarparu cyrsiau hyfforddi athrawon yn Aberystwyth, felly mae 'man oer' yng Ngorllewin Cymru o ran hyfforddiant athrawon. Mae hyn wedi bod yn andwyol o ran y nifer o bobl sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae prinder athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y mae, felly nid yw'r ffaith nad oes cwrs bellach yn Aberystwyth yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r prinder hwnnw. Mae nifer o gyrsiau hyfforddi athrawon wedi eu clystyru yn y De Ddwyrain.

Yn anffodus hefyd, mae cyrsiau rhai colegau sydd ar y gororau yn cael eu hachredu yn Lloegr.

1. Beth yw'r enghreifftiau gorau o ddarparwyr trydyddol yn sicrhau effeithlonrwydd wrth ddarparu cyrsiau ac yn cynnal ansawdd ar yr un pryd? A beth yw'r heriau wrth wneud hyn?

Nid oes gennym sylwadau ar y pwynt hwn.

2. Ymhle y mae yna gyfleoedd i arbed costau wrth ddarparu addysg drydyddol?

Mae angen cydweithio gwybodus. Dylid gweld gwell cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau addysg bellach, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng CYmraeg.

3. Pa dystiolaeth bellach sydd ar gael ynghylch y rhwystrau cost i ddysgwyr a myfyrwyr rhag cael mynediad at addysg drydyddol?

Mae enghreifftiau o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae angen iddynt dalu costau cludiant ar gyfer addysg drydyddol (h.y ar gyfer addysg ôl-16). Mae hyn yn golygu bod tipyn o gost arnynt. Mae hyn yn anffafrio disgyblion sydd yn byw'n bell oddi wrth y canolfannau addysgu. Rhaid cofio hefyd am ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig sydd ymhell oddi wrth unrhyw sefydliad sy'n cynnig addysg drydyddol.

4. Ymhle y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth uniongyrchol (gwariant ar grantiau) ac anuniongyrchol (gwariant ar fenthyciadau) ar gyfer addysg drydyddol? Pa dystiolaeth sydd ar gael ynghylch yr adenillion cymdeithasol/economaidd a phreifat/cyhoeddus gorau ar fuddsoddiadau o'r fath?

| |
|---|
| Mae angen cymorth uniongyrchol i ddatblygu cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Byddai datblygu cwrs trin gwallt drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddatblygiad i'w groesawu. Mae angen sefydlu partneriaethau gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau buddsoddiad gydag ysgolion. Mae angen mwy o gyrsiau lefel 2 galwedigaethol a mwy o gyrsiau economeg (ar bob lefel). |

5. Ymhle y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf yn y dyfodol mewn seilwaith ac ystadau addysg drydyddol?

| |
|---|
| Nid oes gennym sylwadau ar y pwynt hwn. |

## Cymunedau a'r economi

1. Pa elfennau o ddata Deilliannau Addysg Hydredol (LEO) y dylai Llywodraeth Cymru a Medr eu blaenoriaethu er mwyn deall canlyniadau'r farchnad lafur yn well ar gyfer addysg drydyddol?

| |
|---|
| Nid oes gennym sylwadau ar y pwynt hwn. |

2. Ar wahân i Ddeilliannau Addysg Hydredol, pa ddata a gwybodaeth arall y dylid eu defnyddio'n well i ddeall canlyniadau'r farchnad lafur ar gyfer addysg drydyddol?

| |
|---|
| Nid oes gennym sylwadau ar y pwynt hwn. |

3. Sut gall cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyllid ymchwil wneud y defnydd gorau o gyllid sydd ar gael ledled y DU a “mewnwthio” buddsoddiad o’r sector preifat?

| |
|---|
| Nid oes gennym sylwadau ar y pwynt hwn. |

4. Gall cydweithio ac arbenigo gan sefydliadau greu arbedion effeithlonrwydd ac effeithiau cydgrynhoi cryfach ar gyfer addysgu, cyflogaeth ac ymchwil, datblygu ac arloesi. Pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio yn sail i hyn, ac a yw'n awgrymu beth y dylid arbenigo ynddo, a sut? Gallai hyn hefyd greu risgiau a heriau – beth ydyn nhw?

| |
|---|
| Mae’n hollbwysig bod y cyswllt rhwng colegau addysg bellach a byd diwydiant yn cael ei ddatblygu ymhellach. |

5. Pa gyfleoedd a bygythiadau y mae deallusrwydd artiffisial yn eu hachosi i ddyfodol addysg drydyddol? Pa oblygiadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer darparwyr ac ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru yn sgil defnyddio deallusrwydd artiffisial?

| |
|---|
| Mae deallusrwydd artiffisial yn creu cyfleoedd a heriau i bob sefydliad addysgol. Mae’n bwysig, felly, bod yr holl randdeiliaid yn llwyr ymwybodol o’r cyfleoedd a’r heriau hynny. Byddem yn croesawu hyfforddiant o’r radd flaenaf i’r holl randdeiliaid a pholisïau clir i staff a dysgwyr ar yr hyn sy’n dderbyniol/annerbyniol. |